PRIFYSGOL Wrecsam | Wrexham UNIVERSITY

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Wrecsam a gynhaliwyd **Ddydd Gwener, 19 Mai 2023** am 9.00am yn Ystafell y Bwrdd, Campws Llanelwy, Ffordd William Morgan, Llanelwy, LL17 0JD

**Presennol**:

Paul Barlow
Richard Campbell (o 10.00am)
Yr Athro Martin Chambers
Dr Leigh Griffin (Cadeirydd)
Yr Athro Maria Hinfelaar
Lauren Hole
Dr Karen Heald
Sally Lambah
Diane McCarthy (o 10.00am)
Judy Owen
David Subacchi
Richard Thomas
Maureen Wain

**Swyddogion:**

Val Butterworth *(Clerc y Bwrdd)*
David Elcock *(Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Yr Athro Richard Day *(PVC Research)*
James Dawson *(Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr) [eitemau 22.69 22.80 ac eitemau 22.91 i 22.94]*
Pete Gibbs *(Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol)*
Yr Athro Aulay Mackenzie *(Dirprwy Is-Ganghellor dros dro)*
Lynda Powell *(Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau)*

**Ymddiheuriadau:**

Jim Barclay
Claire Homard
Paul McGrady
Yr Athro Sandra Jowett
Amy Rowley
David Sprake
Liam Wynne

| **22.70** | **Adolygiad Cadeirydd y Bwrdd** | |
|---|---|---|
| | *Ymunodd yr Athro Jeremy Bradshaw â'r cyfarfod fel arsylwr fel rhan o broses adolygu Pŵer Dyfarnu Graddau Ymchwil QAA*<br><br>*Gadawodd Cadeirydd y Bwrdd y cyfarfod cyn dechrau'r eitem hon.*<br><br>**Adroddwyd:**<br>Adroddodd Is-gadeirydd y Bwrdd ganlyniadau'r broses i adolygu perfformiad Cadeirydd y Bwrdd. Gwahoddwyd llywodraethwyr ac aelodau Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor i ymateb i'r cwestiynau a gylchredwyd.<br><br>Derbyniwyd adborth am dri maes: ble'r ydych chi'n ystyried bod y Cadeirydd yn perfformio'n dda yn ei rôl; pa feysydd, os o gwbl, ydych chi'n ystyried y gallai'r Cadeirydd eu gwella ac a ydych chi'n ystyried bod ymddygiad y Cadeirydd yn cyd-fynd â gwerthoedd y Brifysgol. Cyflwynodd yr Is-gadeirydd grynodeb o'r ymatebion a dywedodd y byddai adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddosbarthu. | **PB** |

<table>
<tr><td></td><td>Roedd y Cadeirydd wedi cyfarfod â’r Is-gadeirydd i drafod yr adborth a dderbyniwyd a chytunwyd ar y meysydd i’w gwella a awgrymwyd.<br><br>Dychwelodd y Cadeirydd i’r cyfarfod a diolchodd i’r aelodau am gymryd rhan yn y broses adolygu ac am eu hadborth adeiladol a di-flewyn ar dafod a chadarnhaodd ei ymrwymiad i fynd i’r afael â’r meysydd i’w gwella.<br><br>Penderfynwyd:<br>NODI’R adroddiad.</td><td></td></tr>
<tr><td>22.71</td><td>Brandio Prifysgol Wrecsam</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Cafwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Marchnata a Recriwito ar ganlyniadau’r prosiect ailfrandio yn dilyn newid teitl y Brifysgol ym mis Chwefror 2023.<br><br>Adroddwyd:<br>Atgoffwyd yr aelodau bod gwaith wedi bod yn digwydd ar ailfrandio gyda’r enw newydd ers peth amser, gyda’r nod o sicrhau brand sy’n canolbwyntio mwy a y myfyrwyr ac i sefydlu’r Brifysgol yn y farchnad. Amlinellwyd cefndir datblygu’r brand, sut mae’n cyd-fynd â gwerthoedd y Brifysgol, ystyried y Gymraeg a chynnwys rhanddeiliaid. Darparwyd sampl o’r adborth cadarnhaol a dderbyniwyd, yn cynnwys bod y logo a’r lliwiau yn gyfoes, yn aeddfed a bod y ffont a ddewiswyd yn cadw hunaniaeth Gymreig. Roedd profi’r brandio gyda’r myfyrwyr wedi cael ymateb da.<br><br>Byddai’r newid i’r brandio newydd yn digwydd ar 1 Medi 2023 gyda’r diwrnodau agored ym mis Awst yn defnyddio’r brand sy’n bodoli. Byddai arwyddion amlwg yn cael eu gosod yn ystod yr haf, yn ddarostyngedig ar gael caniatâd cynllunio. Byddai gosod gweddill yr arwyddion yn rhan o ymarfer caffael.<br><br>Bydd cyfleoedd i’r staff weld y brandio newydd yn ystod mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst. Byddai’r brandio’n cael ei lansio’n ffurfiol i randdeiliaid mewnol ac allanol ym mis Medi a mis Hydref. Byddai Canghellor y Brifysgol yn bresennol yn y digwyddiadau lansio a byddai gwahoddiad i aelodau’r Bwrdd hefyd. Byddai defnyddio’r brand newydd yn cael ei ledaenu ar sail blaenoriaeth. Croesawyd y brandio newydd ac, mewn ymateb i gwestiynau, cadarnhawyd y byddai canllawiau’r brand ar gael i alluogi sefydlu is-frandiau ble roedd achos busnes clir i wneud hynny, er enghraifft Ysgol Celf a Dylunio Gogledd Cymru, ac y byddai hygyrchedd y cynllun lliwiau’n cael ei adolygu ymhob sefyllfa.<br><br>Roedd yr Undeb Myfyrwyr yn cefnogi ac yn hoffi’r brandio newydd, ac wedi ystyried ei effaith ar eu brandio eu hunain, roeddynt yn ystyried cael gwared ar y ‘G’ o enw’r Undeb Myfyrwyr.<br><br>Penderfynwyd:<br>NODI’R cyflwyniad.</td><td></td></tr>
<tr><td>22.72</td><td>Croeso ac ymddiheuriadau</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Croesawyd yr aelodau i’r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.<br><br>Croesawyd yr Athro Jeremy Bradshaw o QAA fel arsylwr fel rhan o’r broses adolygu’r Pŵer Dyfarnu Graddau Ymchwil.<br><br>Diolchwyd i Lauren Hole am ei chyfraniad at waith y Bwrdd Llywodraethwyr yn ystod ei chyfnod fel Is-lywydd yr Undeb Myfyrwyr gan fod ei chyfnod yn y swydd ar fin dod i ben ar 30 Mehefin 2023. Dymunwyd y gorau iddi yn y dyfodol.<br><br>Roedd y Cadeirydd yn dymuno cofnodi ei longyfarchiadau i Dr David Sprake ar ei gyflawniad diweddar pan ddyfarnwyd doethuriaeth iddo.</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| **22.73** | **Datgan buddiannau** | |
| | Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant yn gysylltiedig ag eitemau ar yr agenda. | |
| **22.74** | **Gweithredoedd y Cadeirydd a materion drwy gylchrediad** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y gweithredu gan y Cadeirydd a Mr Richard Thomas i gymeradwyo'r Weithdrefn Cwynion gan Fyfyrwyr a'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.<br>(ii) Adroddiad ar y dogfennau a ddosbarthwyd ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth i'w gofnodi.<br>(iii) Adroddiad y gweithredu a ddigwyddodd trwy gylchrediad i gymeradwyo dau gymrodoriaeth anrhydeddus.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiadau. | |
| **22.75** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2023, 27 Ebrill 2023 a 5 Mai 2023.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd. | |
| **22.76** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi gan y Clerc.<br><br>**22.76.01 Campws Manceinion (cofnod 22.57)**<br>Cadarnhawyd nad oedd yr oedi o ran LSC yn cwblhau eu model diwygiedig a strwythur y cwmni yn niweidiol i'r Brifysgol. Yn wir, byddai'r trefniant newydd yn rhoi mwy o eglurder ynghylch y trefniadau llywodraethu a chyfrifoldeb y Brifysgol am ansawdd y ddarpariaeth addysgol a chydymffurfio â rheolau mewnfudo. Byddai'r manylion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd gynted ag y byddai popeth wedi'i gadarnhau.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.77** | **Adroddiad yr Is-Ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad yr Is-Ganghellor.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd yr Is-Ganghellor sylw at y pwyntiau allweddol yn yr adroddiad. Roedd hyn yn cynnwys y byddai Prifysgolion Cymru yn cyfarfod â darpar Brif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn gynnar ym mis Gorffennaf ac y byddai deddfwriaeth eilaidd yn mynd trwy'r Senedd i sefydlu fframwaith rheoleiddio'r Comisiwn newydd dan Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Roedd y weithdrefn gofrestru i'r holl ddarparwydd addysg drydyddol yn cael ei datblygu ac mae'n debygol y byddai'n ofynnol cofrestru yn 2025/26.<br><br>Roedd yr Uned Polisi Addysg Uwch wedi cynnal ymchwil ar effaith myfyrwyr rhyngwladol ar economi'r Deyrnas Unedig a byddai'r adroddiad yn deillio o hynny'n cael ei rannu.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **MH** |
| **22.78** | **Adroddiad yr Undeb Myfyrwyr** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd Lywydd yr Undeb Myfyrwyr sylw at bwyntiau allweddol yr adroddiad. Roedd hyn yn cynnwys cael sylw ar y newyddion ym mis Ebrill am yr ymgyrch 'Help Yourshelf' a oedd yn parhau i gynorthwyo myfyrwyr mewn angen ac y derbyniodd yr Undeb Myfyrwyr ganmoliaeth amdano yng nghynhadledd yr Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol (Cymru) yn ddiweddar. Llongyfarchwyd yr Undeb Myfyrwyr ar lwyddiant eu cynnig yn y gynhadledd i sicrhau cynrychiolaeth gyfartal i fyfyrwyr Undebau Myfyrwyr yng Ngogledd Cymru a De Cymru yn Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol Cymru.<br><br>Holwyd Llywydd yr Undeb Myfyrwyr am y prif bryderon neu heriau sy'n wynebu myfyrwyr. Ymatebodd trwy ddweud bod peth anfoddhad yn parhau am y dathliadau graddio ym mis Mai, ond i raddau llai na phan wnaed y cyhoeddi yn wreiddiol, a byddai angen monitro hyn. Mewn ymateb dywedodd yr Is-Ganghellor bod y Brifysgol wedi ymrwymo i werthuso'r digwyddiad ym mis Mai 2024 i hysbysu digwyddiadau graddio/dathlu yn y dyfodol.<br><br>Nodwyd cynefino cadarnach i fyfyrwyr rhyngwladol fel maes i'w ystyried ac roedd camau i ymdrin â hyn trwy'r cynllun gweithredu uniondeb academaidd. Gofynnodd yr Undeb Myfyrwyr i'r Brifysgol fod yn fwy bodlon i dderbyn barn y myfyrwyr, oherwydd er bod y berthynas rhwng yr Undeb Myfyrwyr a'r Brifysgol yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol, roedd adegau pan roedd angen i'r Undeb Myfyrwyr herio safbwynt neu gynlluniau'r Brifysgol. Y pwynt terfynol oedd y byddai cynnydd yn yr ymgysylltu gan lywodraethwyr o gwmpas y campws yn cael ei groesawu'n fawr.<br><br>Nododd yr aelodau nad oedd yr Undeb Myfyrwyr wedi cefnogi newid teitl y Brifysgol yn llwyr i ddechrau, fodd bynnag, yn dilyn yr ymgynghori am yr ailfrandio roedd y myfyrwyr bellach yn cefnogi'r newid ac wedi eu sicrhau bod hunaniaeth Gymreig y Brifysgol yn cael ei chadw. Er eu bod yn bwriadu cael gwared ar y 'G' o'u brandio hwythau, byddai enw'r bar yn parhau i fod yn 'Bar Glyn'.<br><br>Diolchodd y Llywydd i'r Bwrdd am eu cefnogaeth yn ystod ei chyfnod fel Llywydd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.79** | **Maint a siâp y Brifysgol yn y dyfodol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddid ar faint a siâp y Brifysgol fel rhan o'r paratoadau i ddatblygu Gweledigaeth a Strategaeth newydd y tu hwnt i 2025.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor yr adroddiad a thynnodd sylw at sut roedd proffil y Brifysgol wedi newid dros y blynyddoedd. Ers cyflwyno'r papur i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid roedd ffioedd asiantiaid yn gysylltiedig â myfyrwyr rhyngwladol wedi'u tynnu o'r siart cylch ffioedd dysgu i roi darlun cywirach o'r incwm rhyngwladol.<br><br>Roedd cofrestriadau myfyrwyr eisoes wedi cyrraedd 9,422 ar draws yr holl ddarpariaeth, gyda'r potensial i gynyddu i tua 13,000 erbyn 2025/26 petai'r amodau gweithredu cyfredol yn parhau'n gymharol sefydlog.<br><br>Roedd nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr israddedig o'r Deyrnas Unedig wedi lleihau tra bo nifer y myfyrwyr addysg drawswladol a myfyrwyr rhyngwladol wedi cynyddu. Roedd nifer y myfyrwyr israddedig o'r Deyrnas Unedig yn dechrau cynyddu, yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | gysylltiedig â'r contract Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar gyfer rhaglenni nyrsio a phroffesiynau iechyd cysylltiedig.<br><br>Cafwyd trafodaeth am y meysydd pwnc ac asesiad cyfredol eu cryfderau yn y marchnadoedd cartref a rhyngwladol yn ogystal â'r potensial ymchwil a chyfleoedd i gryfhau'r safle yn y farchnad. Roedd angen cydbwyso darpariaeth gref ar y campws yn erbyn y ddarpariaeth heb ei seilio ar gampws.<br><br>Ystyriwyd y rhesymau pam bod y farchnad ar gyfer rhaglenni busnes yn gryf mewn marchnadoedd rhyngwladol ond ddim yn y farchnad gartref. Roedd hyn i raddau oherwydd yr angen am frand y gellid ei adnabod a ffocws cry far ymchwil yn y maes busnes i farchnad y Deyrnas Unedig.<br><br>Croesaodd yr aelodau'r bwriad i gadw portffolio cytbwys gan nod bod yr ymrwymiad i gyflogadwyedd a'r economi ranbarthol ymhlyg ymhob maes pwnc ac y byddai'n ofynnol gwneud peth llilinio i sicrhau bod yr holl raglenni'n parhau'n hyfyw. Byddai ymchwil ar draws disgyblaethau'n bwysig i ddatblygu capasiti a bwrw ymlaen gyda gwaith ymchwil arloesol. Adroddwyd bod FSLS yn edrych am themâu cyffredin ar i feysydd pwnc weithio gyda'i gilydd gan ddefnyddio technoleg, gyda'r nod o ddenu staff nad ydych wedi ymwneud ag ymchwil yn flaenorol i greu máááás critigol.<br><br>Mae'r Brifysgol yn rhan o gynnig ymchwil i gynnal astudiaeth ymchwil hydredol ar y broses fusnes Dinas Diwylliant i benderfynu beth mae'r broses ymgeisio a llwyddiant yn ei olygu i gymuned. Nodwyd y gallai fod yn rhai blynyddoedd i effaith statws dinas Wrecsam, a llwyddiant yn y dyfodol mewn cais i fod yn Ddinas Diwylliant i gael effaith gadarnhaol ar y Brifysgol er y gallai diddordeb y wasg a'r cyfryngau yng Nghlwb Pel-droed Wrecsam gyflymu'r effaith honno.<br><br>Roedd heriau'n parhau gyda chystadleuaeth ar draws y ffin a chadw myfyrwyr a graddedigion yng Nghymru. Roedd marchnata yn parhau i ddefnyddio strategaethau gan gadw hyn mewn cof. Awgrymodd y Bwrdd bod y Brifysgol yn parhau i gynnal deialog agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i adeiladu ar gryfderau Wrecsam, gan nod fod y Cyngor wrthi'n datblygu strategaeth naws am le y mae'r Brifysgol yn cyfrannu ati.<br><br>I grynhoi, mae angen i'r Brifysgol fod yn glir am ei phwyntiau gwerthu unigryw a manteisio ar y cyfleoedd i dyfu a'r risgiau i hynny mewn modd sy'n cyd-fynd â'r gymuned leol a rhanddeiliaid allanol. Byddai'r Bwrdd yn croesawu diweddaru ar sut y bydd y Weledigaeth a'r Strategaeth newydd yn cael ei datblygu ynghyd ag amserlen fras ei datblygiad.<br><br>Diolchwyd i'r Bwrdd am eu mewnbwn ar y cam cynnar hwn yn natblygiad y Weledigaeth a'r Strategaeth newydd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **MH** |
| **22.80** | **Partneriaethau Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar Bartneriaethau Academaidd cyfredol, yn cynnwys niferoedd y myfyrwyr ar draws yr holl raglenni a phartneriaid.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor dros dro yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau ynghylch sut yr aseswyd hyfywedd partneriaid, gan nodi'n benodol bod rhai partneriaid yn addysgu nifer fechan o fyfyrwyr. Amlinellyd y broses adolygu risgiau blynyddol a oedd yn cynnwys materion ansawdd a chadarnrwydd ariannol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd risgiau gwleidyddol a daearyddol yn cael eu monitro hefyd, trwy gyfrwng cyngor gan Uned Rhyngwladol Prifysgolion y Deyrnas Unedig. Ceisir cyngor gan Lywodraeth y DU hefyd bleb o risgiau wedi'u nodi ynghylch gwlad benodol. Rhoddwyd enghraifft Myanmar ble mae cefnogaeth gan y Llywodraeth i barhau i addysgu mewn sefydliadau nad ydynt yn ymwneud â'r gyfundrefn filwrol gyfredol. Bu trafodaethau yn y Senedd ynghylch perthnasoedd rhwng y Deyrnas Unedig a Tsieina hefyd, sy'n cael eu monitro.<br><br>Nodwyd bod gan y Brifysgol nifer arwyddocaol o fyfyrwyr yn astudio mewn un sefydliad yn Singapore. Y rheswm oedd mai'r sefydliad yw un o dri yn unig yn y wlad wedi'i achredu i ddarparu rhaglenni Addysg Uwch ac yn meddu ar y gallu i gyflwyno fisa astudio i fyfyrwyr o'r tu allan i Singapore sy'n teithio o rannau eraill o Asia i astudio yno.<br><br>Trafododd yr aelodau botensial marchnad yr Unol Daleithau a chadarnhaodd y Dirprwy Is-Ganghellor fod gwaith ar y gweill i feithrin perthynas â nifer o sefydliadau yno. Roedd y rhain yn golegau cymunedol yn bennaf sy'n ehangu eu ffocws ar gyfranogiad. Awgrymodd un aelod y byddai'n werth ystyried colegau cymunedol Columbia Prydeinig hefyd.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan y Bwrdd, roedd y rheolwyr yn credu bod gan y Brifysgol y gallu i reoli twf pellach mewn partneriaethau, er bod hyn yn cael ei adolygu i sicrhau bod y strwythurau wedi'u sefydlu yn gadarn ac yn gweithio'n effeithiol. Holodd yr aelodau am asesiad y Brifysgol ar sail cost a budd a chost a risgiau. Roeddynt wedi dechrau tracio'r data yma yn ddiweddar. Tra bo cynigion partneriaid yn cael eu hasesu yn nhermau ffrydiau incwm a dyraniadau i'r Cyfadrannau, y Swyddfa Ansawdd a'r Swyddfa Bartneriaethau, byddai'r cyfraniadau cronnol i'r meysydd hyn yn cael eu monitro'n fwy trylwyr wrth symud ymlaen.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.81** | **Diweddariad ar y broses Pŵer Dyfarnu Graddau Ymchwil** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Diweddarodd PVC Research y Bwrdd ar gynnydd y broses adolygu Pŵer Dyfarnu Graddau Ymchwil yn cael ei chynnal gan QAA, yn cynnwys yr ymweliad ym mis Ebrill ac arsylwi cyfarfodydd. Byddai rhagor o arsylwi'n digwydd yn nhymor yr Hydref gyda'r nod o gadarnhau canlyniad yr adolygiad erbyn mis Rhagfyr 2023.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.82** | **Adroddiad Rheolaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Yr adroddiad Rheolaeth Ariannol hyd at 31 Mawrth 2023.<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**22.82.01 Adroddiad Rheolaeth Ariannol**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad yn nodi bod rhagfynegiad y flwyddyn lawn yn ddiffyg gweithredol o £1,154k yn erbyn gwarged gweithredol yn y gyllideb o £113k. Rhagfynegir mai'r sefyllfa net yn dilyn cwblhau gwerthu safle Ffordd y Deon fydd £2,096k. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ariannol wedi cael eu heffeithio'n negyddol gan y sefyllfa ddiwygiedig a ragfynegir, gan fod costau staffio yn cael eu rhagfynegi yn unol â'r gyllideb yn fras, gan eu bod wedi'u rheoli'n dynn iawn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn nghyswllt gwaethygu'r rhagfynegiad alldro diwygiedig amlinellodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y ffactor allweddol y tu ôl i'r newidiadau. Roedd hyn yn cynnwys y dyfarniad cyflog 2023/24 o 2% a ddygwyd ymlaen, costau cyfleustodau wedi cynyddu ac incwm Ffioedd Dysgu yn llai na'r rhagfynegiad yn dilyn cysoni contract Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Cafodd y rhain eu gwrthosod yn rhannol gan y cynnydd yn y Ffioedd Dysgu o'r ddarpariaeth ryngwladol a chydweithredol. Y rheswm am y incwm Ffioedd Dysgu llai na'r disgwyl o'r contract AaGIC oedd cyfri ddwywaith lle roedd rhai myfyrwyr nyrsio a phroffesiynau iechyd cysylltiedig wedi cyllido eu hunain trwy gyfrwng benthyciad myfyrwyr yn hytrach na manteisio ar fwrsari AaGIC. Byddai mwy o eglurder ynghylch sut roedd myfyrwyr o'r fath yn cael eu cyllido yn cael ei sefydlu wrth symud ymlaen. Roedd myfyrwyr nad oeddynt yn defnyddio bwrsari AaGIC yn parhau i gyfrannu at niferoedd y contract AaGIC. Roedd gwybodaeth anecdotaidd pam nad oedd rhai myfyrwyr nyrsion a phroffesiynau iechyd cysylltiedig yn defnyddio bwrsari AaGI Cyn dod trwy'r ganolfan Cyngor Cyllido i Fyfyrwyr a bwriedir edrych ar hyn yn fanwl, ac roedd yn ymwneud ag oedran ac amgylchiadau personol yr unigolion a'r cyngor roeddynt yn ei dderbyn yn ystod y broses ymgeisio.<br><br>Roedd y gorgyflawni ar yr incwm llety myfyrwyr yn erbyn y gyllideb oddeutu £265k o'r costau eiddo a gafodd eu cynnwys yn gysylltiedig â'r contract i letya ffoaduriaid o Wcrain, a fyddai'n cael ei ad-dalu gan Lywodraeth Cymru. Penderfynwyd peidio â pharhau i ddarparu llety i'r ffoaduriaid o Wcrain yn 2023/24 i sicrhau y byddai digon o lety ar gael i fyfyrwyr o gofio'r prinder tai i fyfyrwyr yn y sector preifat.<br><br>Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynhyrchu arian parod ar y sail, er y byddai diffyg gweithredol, roedd cronfeydd arian wrth gefn yn cael eu clustnodi ar gyfer datblygiadau cyfalaf ac yn ennill llog arwyddocaol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R Adroddiad Rheolaeth Ariannol. | **SL** |
| **22.83** | **Paratoi'r Gyllideb** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Sefyllfa'r gyllideb ddrafft ddechreuol ar gyfer 2023/24.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y gyllideb ddrafft ddechreuol ac amlinellodd y broses y tu ôl i gynhyrchu sefyllfa ddrafft gynharach. Roedd y sefylfa ddrafft wedi tybio dim twf yn nifer y myfyrwyr israddedig newydd o'r Deyrnas Unedig yn uwch na niferoedd 2022/23 (615 o fyfyrwyr), a nifer y myfyrwyr yn dychwelyd yn 1,019, gyda 447 lle wedi'u comisiynu ar gyrsiau AaGIC, dyfarniad cyflog 3% a chynnydd o £1m yn y biliau cyfleustodau ar y sail bod y Brifysgol wedi dod i ddiwedd cyfnod y trefniadau prynu ymlaen llaw. Ni ychwanegwyd chwyddiant at elfennau gwariant ac eithrio cyflogau. Yr unig feysydd twf ac eithrio cyflogau a nodwyd yn uwch na'r lefelau gweithgarwch cyfredol oedd y rhai'n ymwneud â chostau untro'n unig potensial y prosiect ailfrandio a'r seilwaith Technoleg Gwybodaeth ar gyfer gwelliannau Wi-Fi. Un elfen o dwf sicr oedd yn recriwtio myfyrwyr rhyngwladol gan fod hyn yn cael ei ystyried yn nod y gellid ei gyflawni.<br><br>Byddai'r sefyllfa ddrafft yn darparu sefyllfa adennill costau cyn taliadau FRS17. Roedd yn amlwg y byddai cael sefyllfa warged yn galw am arbed costau ychwanegol, ac incwm ychwanegol fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, gweithredoedd a fyddai'n heriol i'r staff dan yr amgylchiadau. Byddai'r adran Cyllid yn gweithio â deiliaid cyllideb i ddatblygu'r sefyllfa derfynol.<br><br>Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid sylw at y rhesymeg dros gefnogi sefyllfa adennill costau gweithredol yn 2023/24. Bu'n ddefnyddiol deall y sefyllfa ariannol yn gynnar, gan nodi y byddai symuiadau rhwng nawr a chyflwyno'r drafft | |

| | | |
|---|---|---|
| | terfynol i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ym mis Mehefin ac i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R sefyllfa gyfredol a CHYTUNO ar sefyllfa adennill costau gweithredol yn y gyllideb ddrafft derfynol. | |
| **22.84** | **Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Diweddariad Campws 2025.<br>(ii) Cais i gynyddu'r gwariant 'wynebu risg' dynodedig i gyfanswm o £562k ar gyfer prosiect y Ganolfan Fenter, Peirianneg ac Opteg.<br>(iii) Cais am weithredu dirprwyedig i gymeradwyo argymhelliad dyfarnu'r contract ar gyfer gwaith cam 2A y Chwarter Addysg a Gwella Iechyd (a gyflwynwyd).<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**22.84.01 Campws 2025**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r adroddiad gan dynnu sylw at faterion a ddigwyddodd ers ysgrifennu'r adroddiad. Roedd gwaith yn parhau i gwblhau gwerthu safle Ffordd y Deon yn ystod y flwyddyn academaidd hon.<br><br>Cynhaliwyd archwiliad mewnol diweddar ar y Fframwaith Prosiectau Cyfalaf a ddaeth i'r casgliad y gall y Bwrdd gymryd sicrwydd sylweddol bod y mesurau rheoli mae'r Brifysgol yn dibynnu arnynt i reoli prosiectau cyfalaf wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu rhoi ar waith gyda chysondeb ac yn gweithredu'n effeithiol.<br><br>**22.84.02 Gwariant 'wynebu risg' prosiect y Ganolfan Fenter, Peirianneg ac Opteg**<br>Atgoffwyd yr aelodau y cymeradwywyd y gwariant £300k ym mis Gorffennaf 2021 i gyflawni gweithgareddau 'wynebu risg' i ganiatáu dylunio adeilad y Ganolfan Fenter, Peirianneg ac Opteg ac i fwrw ymlaen gyda'r broses gaffael i gam 2 Dylunio ac Adeiladu. Byddai hyn yn galluogi cyflwyno Achos Busnes Terfynol. Gofynnwyd am gynnydd o £262k gan fynd â chyfanswm y gwariant 'wynebu risg' i £562k a oedd yn cynnwys £60k ar gyfer hapddigwyddiad.<br><br>Roedd y gwariant 'wynebu risg' yn ganran o'r costau adeiladu disgwyliedig ac roedd y gyllideb ar gyfer y prosiect wedi cynyddu ers y gymeradwyaeth ddechreuol. Unwaith y bydd yr Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo a bod y contract bargen twf wedi'i lofnodi byddai'r Brifysgol yn medru hawlio'r gwariant yn ôl. Roedd hyder mawr y byddai'r prosiect yn bwrw ymlaen gan fod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol, wedi cytuno i'r cynnydd yng nghyllideb y prosiect ac roedd cefnogaeth wleidyddol arwyddocaol i'r prosiect.<br><br>Roedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn argymell cymeradwyo'r gwariant ychwanegol.<br><br>**22.84.03 Gweithiau Cam 2 y Chwarter Addysg a Gwella Iechyd**<br>Atgoffwyd yr aelodau eu bod wedi cymeradwyo'r achos busnes a'r gwariant ar gyfer camau 2a a 2B i gyflawni datblygiadau seilwaith cyfalaf i gyflawni'r contract AaGIC gwerth £6.613m ar gyfer y ddau gam.<br><br>Cynhaliwyd proses dendro ar gyfer gwaith Cam 2A, a hysbysebwyd ar y llwyfan caffael cyhoeddus GwerthwchiGymru yn ystod mis Ebrill 2023 a chafwyd chwech ymateb a oedd yn cydymffurfio â'r gofynion. Roedd y tendrau ar gyfer contract gwerth oddeutu £1.6m yn cael eu dadansoddi'n fanwl gan syrfeiwr meintiau ar hyn o bryd. Roedd angen cymeradwyo dyfarnu'r contract ym mis Mai er mwyn sicrhau | |

| | | |
|---|---|---|
| | amser paratoi digonol i'r contractwr llwyddiannus ddechrau ar y safle ar 3 Gorffennaf i alluogi trosglwyddo rhan gyntaf y gwaith ym mis Medi 2023 a'r ail ran ym mis Tachwedd 2023.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad.<br><br>CYMERADWYO cynyddu'r gwariant £262k i roi cyfanswm o £562k ar gyfer gweithgareddau 'wynebu risg' i alluogi prosiect y Ganolfan Fenter, Peirianneg ac Opteg i symud ymlaen i'r achos busnes llawn.<br><br>CYMERADWYO dirprwyo i Gadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid y gwaith o adolygu ar y cyd a chymeradwyo'r argymhelliad i ddyfarnu'r contract. | |
| **22.85** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cadeirydd grynodeb o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf. Roedd rhain yn cynnwys bod mewn cyfarfod Cadeiryddion Prifysgolion Cymru gyda'r Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg, y dosbarthwyd crynodeb o'r trafodaethau i'r llywodraeth ac i gynhadledd Cyngor Cadeiryddion Prifysgolion ar 15 a 16 Mai, ble y trafodwyd y themâu dyfodol cynaliadwy, twf yn niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol, newidiadau demograffig, sgiliau blaenoriaeth a darpar fodelau cyllido yn y dyfodol.<br><br>Byddai cyfweliadau yn cael eu cynnal gyda darpar lywodraethwyr newydd ar 24 Mai. Roedd y Cadeirydd yn dymuno cynyddu ymwneud y llywodraethwyr y tu allan i gyfarfodydd, yn fewnol ac yn allanol. Roedd wedi ysgrifennu at Gadeirydd newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gofyn am drefnu cyfarfod hefyd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.86** | **Y Bwrdd Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad a chofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 10 Mai 2023.<br>(ii) Diweddariad i'r Bwrdd Academaidd ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Uniondeb Academaidd.<br><br>**Adroddwyd**<br>Nododd yr Is-Ganghellor bod y Bwrdd Academaidd eisoes yn mynd i'r afael â rhai o'r gweithredoedd yn deillio o'r cynllun gweithredu Ymchwiliad i Bryderon gan QAA.<br><br>Roedd gweithredu'r Cynllun Gweithredu Uniondeb Academaidd yn cael ei arwain gan y Deon Cyswllt Datblygiad Academaidd, Neil Pickles. Nodwyd nad oedd diweddariad yn yr adroddiad ynghylch adolygiad parhaus y meini prawf sgiliau Saesneg er mwyn cael mynediad yn erbyn sefydliadau meincnodi. Hefyd codwyd cwestiwn a oedd cyfnod cynefino wythnos o hyd i fyfyrwyr rhyngwladol cyn dechrau eu rhaglen academaidd yn ddigon hir. Eglurwyd bod y cyfnod cynefino wythnos o hyd hwn yn ychwanegol at y rhaglenni cynefino dan arweiniad y cyfadrannau. Byddai cyfraddau llwyddiant a pherfformiad myfyrwyr rhyngwladol o ganlyniad i'r mentrau a'r ymyriadau a oedd yn cael eu cyflwyno yn cael eu monitro gan dimau rhaglen.<br><br>Eglurwyd bod mwyafrif y gwariant a oedd yn ofynnol i gefnogi gweithredu'r Cynllun Gweithredu Uniondeb Academaidd wedi'i gynnwys yn y gyllideb.<br><br>Awgrymwyd y dylai'r Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau gynnal adolygiad manylach o'r diweddariad yn erbyn y cynllun gweithredu gwreiddiol i sicrhau bod yr holl | |

| | | |
|---|---|---|
| | agweddau'n cael sylw. Awgrymwyd gwahodd y Pennaeth Myfyrwyr Rhyngwladol a swyddogion eraill i ddod i gyfarfodydd y Panel yn y dyfodol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad a'r cofnodion.<br><br>NODI'R adroddiad cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu Uniondeb Academaidd. | **VB/ SJ** |
| **22.87** | **Adroddiad Risgiau Strategol Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodeb Adroddiad Risgiau Strategol Corfforaethol a map gwres risgiau Mawrth 2023.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwyodd Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risgiau'r adroddiad a thynnu sylw at agweddau allweddol adolygiad y risgiau gan y Pwyllgor. Bu cynnydd yn sgorau risg pum maes risg, ond rhagwelwyd y byddai rhai yn lleihau yn ystod yr adolygiad nesaf.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.88** | **Sêl y Brifysgol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar osod sêl y Brifysgol ar ddau gontract: Spatial Environments Ltd ar gyfer gwaith cam 1 y Chwarter Addysg a Gwella Iechyd, a Taylor Hobson Ltd ar gyfer prynu a chefnogaeth i Profilomedr amrediad eang.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.89** | **Cylchlythyrau ac Ymgynghoriadau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodeb cryno dau gylchlythyr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru: ymgynghoriad technegol ar ddata yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2023 a deilliannau'r ymgynghoriad ynghylch cyllido addysgu.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **22.90** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **22.90.01 Y Pwyllgor Archwilio a Risgiau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Is-gadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad. Cynhaliwyd proses dendro i benodi'r gwasanaethau archwilio mewnol gan fod RSM UK Risk Assurance Services LLP wedi cyrraedd diwedd cytundeb pum mlynedd. Roedd panel yn gweithredu ar ran y Pwyllgor Archwilio a Risgiau wedi cyfweld tri chwmni a gyflwynodd gais a daeth RSM ar y brig ac argymhellwyd eu hailbenodi.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023.<br><br>NODI bod cofnodion y cyfarfod ar 23 Mawrth, heb eu cadarnhau, wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | CYMERADWYO penodi RSM UK Assurance Services LLP i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol y Brifysgol yn weithredol o 1 Awst 2023 am gyfnod o dair blynedd i ddechrau, y gellid ei ymestyn am uchafswm o bum mlynedd yn ddarostyngedig i adolygiad perfformiad blynyddol. | |
| | **22.90.02 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyad ar 27 Ebrill 2023.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Is-gadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad gan dynnu sylw at y gweithredu a oedd yn digwydd i fonitro gweithredu'r argymhellion critigol ac uchl yn yr adroddiad Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2023.<br><br>NODI bod cofnodion y cyfarfod ar 27 Ebrill, heb eu cadarnhau, wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **22.90.03 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2023.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad gan dynnu sylw bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo gwariant o £470k i ddatblygu Hwb Seiber a fyddai'n defnyddio cyn Stiwdio Terry Hands ac yn cael ei ailenwi yr Academi Arloesi Seiber. Byddai'r Hwb Seiber o fudd i fyfyrwyr a byddai'n denu incwm hefyd trwy bartneriaeth gyda Seiber Cymru i gynnig Ystafell Ddianc Seiber i'r lluoedd arfog ac i sefydliadau eraill.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2023.<br><br>NODI bod cofnodion y cyfarfod ar 28 Ebrill, heb eu cadarnhau, wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **22.90.04 Y Pwyllgor Craffu Ansawdd a Safonau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror a 20 Ebrill 2023.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnwyd sylw at waith y Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau a byddai'r Panel yn cael ei ddatblygu yn Bwyllgor llawn y Bwrdd o flwyddyn academaidd 2023/24 ymlaen.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror a 20 Ebrill 2023.<br><br>NODI bod cofnodion y cyfarfodydd ar 24 Chwefror a 20 Ebrill, heb eu cadarnhau, wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **21.90.05 Yr Is-gwmnïau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion cyfarfod Glyndwr Innovations Ltd a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023.<br><br>**Penderfynwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | NODI'R cofnodion, a ddosbarthwyd ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |

Diwedd